

Ydych chi'n Fyddar neu'n Drwm eich Clyw?

Ffeithlen 3

(Tachwedd 2023)

Yn Sir Gaerfyrddin mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael i helpu pobl â nam ar y synhwyrâu i gadw cymaint o annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau â phosibl.

Mae'r daflen hon yn dweud wrthyfych am y gwasanaethau hyn a sut i ddarganfod mwy amdanynt.

Beth yw Nam ar y Synhwyrâu?

Nam ar y synhwyrâu yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio anableddau fel:

- **Byddar/nam ar y clyw**
- **Nam ar y golwg/ddall**
- **Byddarddall (nam ar ddau synnwyr)**

Os ydych chi'n fyddar neu'n drwm eich clyw, efallai eich bod chi'n profi problemau rhwystredig gartref.

Efallai eich bod yn cael anhawster clywed sgysiau, rhaglenni teledu, nid ydych bob amser yn clywed y ffôn neu gloch y drws neu efallai y bydd rhai anawsterau ymarferol eraill a achosir gan eich problemau clyw.

Os bydd unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn yn berthnasol i chi, mae'n debygol y bydd gennych hawl i gael asesiad ar gyfer gofal a chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin a allai helpu gyda darparu offer arbenigol.

Os ydych chi'n hollol fyddar, efallai y gwelwch y gallai system galwr dirgrynol neu olau sy'n fflachio fod yn fwy addas i'ch anghenion. Gall offer fel hyn eich rhybuddio i bobl sydd wrth y drws neu'r ffôn yn canu. Mae systemau canfod mwg hefyd yn arbennig ar gyfer pobl fyddar neu drwm eu clyw ar gael gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.



For more information on social care services log onto:
www.carmarthenshire.gov.wales/socialcare

Os ydych chi'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau oherwydd nam ar y clyw, mae gennym staff hyfforddedig a allai eich helpu. Os oes angen, gallwn eich helpu i gael mynediad at Ddehonglydd Iaith Arwyddion, Siaradwr Gwefusau neu gymorth cyfathrebu arall mewn unrhyw apwyntiadau pwysig sydd gennych.

Os ydych chi'n hollol fyddar ac yn cael anawsterau yn aml gyda chyfathrebu, efallai y bydd gennych hawl i Daliad Annibyniaeth Personol (Lwfans Byw i'r Anabl gynt). Gallwn eich cynghori ar hyn.

Gallwn roi gwybodaeth i chi am y gwahanol glybiau Byddar, Nam ar y Clyw a Byddarddall yn yr ardal, yn ogystal â dosbarthiadau darllen gwefusau.

Os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n fyddarddall, gallwn eich cynghori ar y gwasanaethau, yn genedlaethol ac yn lleol, sydd ar gael i gefnogi'r person hwnnw.

Sut gallaf gysylltu â chi?

Gallwch gysylltu â'n swyddogion drwy ffonio ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar 0300 333 2222 neu drwy neges destun: 0789 2345678 neu drwy wneud atgyfeiriad drwy ein gwefan www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol

Ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu clyw, gallwch gysylltu â'n Tîm Anabledd 0-25 drwy'r Tîm Atgyfeirio Canolog ar gyfer plant ar 01554 742322

E-bost: CRTChildren@sirgar.gov.uk

Ymysg y sefydliadau eraill a all helpu y mae:

Cymdeithas Fyddar Prydain Cymru	0207 697 4140
Deafblind UK	0800 132320
Clwb Byddar Llanelli	☎07942373649 ✉llanellideafclub@googlemail.com
Cyflawni gyda'n gilydd	0808 808 0123 / 01554 700691
Sense Cymru	0300 330 9280
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar	01443 485687

Awdioleg (apwyntiadau a batris) - Llanelli - 01554 783188
Glangwili - 01267 227449



For more information on social care services log onto:
www.carmarthenshire.gov.wales/socialcare

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
Os hoffech chi gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat
arall ffoniwch 01267 228703 neu
e-bostiwch gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**



For more information on social care services log onto:
www.carmarthenshire.gov.wales/socialcare